Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Hawliau Pobl Anabl

## Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2025 a 2035



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cynllun Hawliau Pobl Anabl: 2025 - 2035**



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 37.**

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:**

llyw.cymru/cynllun-hawliau-pobl-anabl-2025-i-2035

**E-bost:**

TimCynhwysiantPoblAnabl@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y cynllun yma** .......... **4**

**Rheoli a mesur y cynllun** .......... **8**

**Pobl anabl yng Nghymru** .......... **11**

**Syniadau pwysig** .......... **16**

**4 maes** .......... **19**

Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth .......... 20

Swyddi, arian ac addysg .......... 25

Byw’n Annibynnol, iechyd a gofal cymdeithasol .......... 29

Cyfiawnder .......... 33

**Geiriau anodd** .......... **37**

# Am y cynllun yma



Rydyn ni eisiau i Gymru barchu a gwerthfawrogi pobl anabl.




Rydyn ni eisiau i Gymru fodloni hawliau pobl anabl.




Dyma ein cynllun 10 mlynedd i weithio tuag at hyn.



Ein prif nod ydy gwneud yn siŵr bod Cymru'n cynnwys pobl anabl ym mhopeth.




Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn **hygyrch** i bobl anabl.



Mae **hygyrch** yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio gan unrhyw un yn hawdd.



Mae angen i bob sefydliad a phobl ar draws Cymru weithio gyda'i gilydd i wneud i hyn ddigwydd.





Mae yna gamau tymor byr i gyd-fynd â'r cynllun yma. Dyma'r pethau rydyn ni'n mynd i'w gwneud erbyn diwedd 2027.



Rydych chi'n gallu darllen rhain yma os ydych chi eisiau: [www.llyw.cymru/cynllun-hawliau-pobl-anabl-2025-i-2035](http://www.llyw.cymru/cynllun-hawliau-pobl-anabl-2025-i-2035)

Mae’r cynllun yma yn cael ei lywio gan:




- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl




- a’n Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl



Mae hwn yn gytundeb cyfreithiol rhwng gwledydd ar draws y byd.





Mae'n dweud bod gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall.



Mae'n dweud beth ddylai llywodraethau ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael yr hawliau yma.

## Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol




Mae gennym ni 7 amcan cydraddoldeb cenedlaethol. Mae rhain yn nodau i'n helpu i wneud Cymru'n gyfartal i bawb. Mae rhian yn llywio holl waith Llywodraeth Cymru i helpu i wneud i hyn ddigwydd.

# Rheoli a mesur y cynllun



Fe fydd llawer o dimau a phobl yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r cynllun.



Mae gennym ni dimau a grwpiau fydd yn edrych I weld bod y cynllun yn cael ei ddilyn ac yn gwneud gwahaniaeth:



- **Uned Tystiolaeth Anghydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru** – fe fydd yn mesur pa mor dda mae'r cynllun yn mynd.



- **Bwrdd Cynghori Allanol** – fe fydd yn cael ei sefydlu yn 2026.



Fe fydd pobl anabl yn rhan o’r **Bwrdd Cynghori Allanol**.



Fe fyddan nhw’n edrych ar sut mae’r cynllun yn mynd ac yn awgrymu beth sydd yn gallu cael ei wneud yn well.



Fe fyddan nhw’n gwneud yn siŵr bod lleisiau ac anghenion pobl anabl yn dod yn gyntaf.



Fe fyddwn ni hefyd yn gweithio gyda:

- Y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd
- Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl
- Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Niwrowahaniaeth



Fe fyddwn ni'n rhannu'r ffyrdd gorau o weithio ac yn dysgu oddi wrth ein gilydd.



Fe fydd gan Sefydliadau Pobl Anabl ran bwysig yn y cynllun.



Fe fyddan nhw'n casglu barn gan bobl anabl a sefydliadau bach.

# Pobl anabl yng Nghymru



Mae tua 1 o bob 5 o bobl yng Nghymru yn anabl.



Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael **namau**.



Mae **nam** yn wahaniaeth mewn sut mae corff neu feddwl rhywun yn gweithio. Mae'n gallu bod yn y tymor byr, yn y tymor hir neu hyd yn oed yn newid o ddydd i ddydd. Efallai oherwydd eich bod chi'n sâl, wedi'ch anafu, neu fod gennych gyflwr iechyd.



Mae menywod yn fwy tebygol o ddweud eu bod nhw'n anabl.

Mae pobl anabl yn fwy tebygol o gael eu gadael allan a'u trin yn annheg mewn meysydd fel:



- Addysg



- Cyflogaeth



- Iechyd



- Tai



- Cludiant



Mae pobl anabl yn gallu cynnwys pobl â:



- Anableddau dysgu.



- Gwahaniaethau corfforol. Er enghraifft, pobl sydd yn defnyddio cymhorthion symudedd fel ffrâm gerdded neu gadair olwyn.



- Gwahaniaethau synhwyraidd. Er enghraifft, pobl sy'n fyddarddall.




- Cyflyrau iechyd hirdymor. Er enghraifft, diabetes a chlefyd Crohn.



- Anawsterau dysgu penodol. Er enghraifft, dyslecsia.




- Cyflyrau iechyd meddwl. Er enghraifft, iselder a gorbryder.





- Cyflyrau iechyd sydd yn gallu gwaethygu. Er enghraifft, canser.



- Pobl sy’n **niwrowahanol**.



Mae **niwrowahanol** yn meddwl bod ymennydd person yn gweithio’n wahanol. Mae’n cynnwys pethau fel anabledd dysgu, ADHD ac awtistiaeth.



Mae’n bwysig gwybod nad ydy pob person yn y grwpiau yma yn gweld eu hunain yn anabl. Mae pawb yn wahanol.

# Syniadau pwysig



Mae'r cynllun wedi ei seilio ar syniadau a gwerthoedd pwysig. Er enghraifft:



- Gweithio gyda phobl anabl a sefydliadau.



- Byw'n annibynnol – cael dewis a rheolaeth dros eich bywyd a byw'r bywyd rydych chi'n ei ddewis.




- Cydraddoldeb – trin pobl yn deg a pharchu dewisiadau pobl.



- **Hygyrchedd.**

Cymraeg

- Y Gymraeg.



- Technoleg – gwneud y gorau o bethau fel gwasanaeth ar-lein i wella bywydau pobl.



- Iaith Arwyddion Prydain.



- **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ffordd o feddwl am, ac edrych ar anabledd.



Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud. Dim eu nam neu wahaniaeth sydd yn stopio nhw.



Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.

# 4 maes



Mae'r cynllun yma wedi ei seilio ar 4 prif faes:

- **Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth**
- **Swyddi, arian, ac addysg**
- **Byw'n annibynnol, iechyd a gofal cymdeithasol**
- **Cyfiawnder**




Mae'r cynllun yn dweud beth rydyn ni eisiau ei gyflawni yn y 4 prif faes yma.

# Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth

Ein prif nodau

Rydyn ni eisiau:



- Systemau trafnidiaeth **hygyrch** a diogel sy'n cefnogi byw'n annibynnol.




- Pobl anabl i helpu gwasanaethau trafnidiaeth i ddeall eu hanghenion.



- Tai **hygyrch** sy'n ateb anghenion pobl. Rydyn ni eisiau i wasanaethau tai weithio'n dda a bodloni hawliau pobl anabl.



- Lleoedd **hygyrch** mae pobl anabl yn gallu eu defnyddio'n rhydd ac yn hawdd.



Mae hyn yn meddwl **gwasanaethau cyhoeddus** a mannau lle mae pobl anabl yn cael eu cynnwys.



Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn meddwl gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth. Fel y GIG a thrafnidiaeth gyhoeddus.

**Nodau eraill ar gyfer teithio:**



- Staff wedi'u hyfforddi'n dda sy'n deall anghenion pobl anabl.




- Pobl anabl wedi'u cynnwys wrth wneud cynlluniau a pholisïau.




- Gwybodaeth **hygyrch**. Fel sain, Hawdd ei Ddeall, Ieuenctid-gyfeillgar ac Iaith Arwyddion Prydain.



- Gwasanaethau wedi'u rheoli'n dda.



- Bod unrhyw newidiadau sydd yn cael eu gwneud i drafnidiaeth i helpu i ofalu am ein planed ddim yn annheg i bobl anabl. Bod anghenion a lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed a'u cynnwys.



- Bod pobl anabl yn gallu defnyddio gwasanaethau a thechnoleg ar-lein yn hawdd. Fel systemau archebu ar-lein.

## Nodau eraill ar gyfer tai:



- Gwybodaeth dda ar gael i bobl anabl am dai a'u hawliau.



- Bod mwy o dai **hygyrch** ar gael.




- Gwasanaethau cymorth tai mae pawb yn gallu eu defnyddio.




- Bod pobl anabl yn cael eu cynnwys wrth wneud cynlluniau a pholisïau tai.



- Gwasanaethau tai wedi'u rheoli'n dda.




- Bod staff tai yn deall hawliau ac anghenion pobl anabl.

## Nodau Model Cymdeithasol o Anabledd:




- Mae **gwasanaethau cyhoeddus** wedi'u cynllunio a'u dylunio mewn ffordd sy'n cefnogi hawliau pobl anabl.



- Mae pobl anabl yn cael eu cynrychioli ac maen nhw'n gallu cymryd rhan lawn yn eu cymunedau.

# Swyddi, arian ac addysg

## Ein prif nodau

Rydyn ni eisiau:



- Pobl anabl i gael y cyngor a'r gefnogaeth maen nhw eu hangen i ddod o hyd i, cael a chadw gwaith.



- Bod plant a phobl ifanc anabl yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cynnwys mewn addysg. Mae eu hanghenion yn cael eu deall a'u cefnogi.

## Nodau eraill



- Mae pobl anabl yn cael eu cynnwys a'u cefnogi yn y gweithle.




- Mae pobl anabl i'w cael ym mhob lefel o'r gweithlu ac yn cael eu trin yn deg.




- Mae pobl anabl yn cael y cyfle i ddysgu a chael sgiliau newydd.



- Mae beth mae pobl anabl yn feddwl yn cael sylw wrth wneud unrhyw newidiadau i fudd-daliadau.



- Fe fydd pobl anabl yng Nghymru yn cael gwell cyfleoedd mewn bywyd a llai o annhegwch gydag arian a swyddi



- Mae pobl anabl yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn dysgu gydol oes.

## Nodau Addysg i blant a phobl ifanc




- Mae plant anabl yn cael yr addysg a'r gefnogaeth maen nhw eu hangen.



- Mae dysgwyr a staff anabl yn cael eu clywed ac yn cael dweud beth maen nhw'n feddwl.



- Mae darparwyr addysg yn rhoi'r gefnogaeth a'r ddealltwriaeth gywir.



- Mae addysg yn cael ei archwilio a'i reoli'n dda.



- Mae ysgolion a mannau dysgu yn **hygyrch**.



- Mae dysgwyr anabl yn gallu symud yn hawdd o'r ysgol i'r coleg a'r brifysgol, yn llyfn ac yn deg.

# Byw'n Annibynnol, iechyd a gofal cymdeithasol

## Ein prif nodau

Rydyn ni eisiau:



- Budd-daliadau a gwasanaethau teg sy'n cefnogi byw'n annibynnol.



- Bod pobl anabl yn byw bywydau llawn ac yn mwynhau eu hawl i lesiant, a byw'n annibynnol.



- Bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn **hygyrch** ac wedi ei seilio ar y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.

## Nodau llesiant



- Mae gan bobl anabl yr un cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel y celfyddydau a chwaraeon â phobl sydd ddim yn anabl.



- Mae plant ac oedolion anabl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwarae. A chael y gefnogaeth maen nhw ei angen i wneud hynny.



- Mae pobl anabl yn gallu cyfathrebu mewn ffyrdd sydd orau iddyn nhw. Er enghraifft, trwy'r Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain.

## Nodau iechyd, gofal a chymorth



- Mae pobl anabl yn cael y gofal gorau ar yr adeg iawn.




- Mae lleoliadau gofal yn **hygyrch**.



- Mae pobl anabl yn cymryd rhan lawn mewn sut mae gwasanaethau yn cael eu rhedeg.



- Mae darparwyr gofal yn cefnogi pobl anabl yn dda ac yn deall eu hanghenion.




- Mae pobl anabl yn gwybod eu hawliau i gael gwybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol yn y ffordd orau iddyn nhw. Er enghraifft, Hawdd ei Ddeall neu Gymraeg.



- Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Maen nhw'n gallu cael y wybodaeth gywir ar yr adeg iawn. Maen nhw'n gwybod pa gefnogaeth sydd ganddyn nhw'r hawl i'w gael.




- Mae pobl anabl yn rhan o gynlluniau ar gyfer gofalu am ein planed.



- Mae pobl anabl yn cymryd rhan mewn cynllunio ar gyfer argyfyngau iechyd cyhoeddus, fel llifogydd a COVID-19.

# Cyfiawnder

## Ein prif nodau

Rydyn ni eisiau:



- Bod pobl anabl yn gallu bod yn nhw eu hunain a dydyn nhw ddim yn cael eu gadael allan. Maen nhw'n cymryd rhan yn eu cymunedau lleol ac yn cael siarad yn yr iaith o'u dewis nhw.



- Bod pobl anabl yn gallu defnyddio gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion.



- Bod gwasanaethau a thechnoleg ar-lein yn **hygyrch** i bobl anabl.



- Gwella profiadau pobl anabl gyda'r systemau cyfreithiol a chyfiawnder. Mae hawliau pobl yn cael eu hyrwyddo a'u hanghenion yn cael eu hateb.



- Bod hawliau a phrofiadau pobl anabl yn cael eu clywed a'u cefnogi gan yr holl wasanaethau.



- Gwella systemau cyfreithiol a chyfiawnder trwy wneud i wasanaethau weithio gyda'i gilydd yn well a helpu pobl i ddeall eu hawliau.

## Nodau eraill




- Mae pobl anabl yn gwybod eu hawliau ac yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen am y gyfraith.



- Mae pobl anabl sydd wedi profi trais a cham-drin yn cael y gefnogaeth orau. Cam-drin yw pan fydd rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu i wneud i chi deimlo'n ddrwg.



- Mae pobl anabl yn cael eu deall yn well gan y system gyfiawnder.



- Mae pobl anabl yn cael eu trin yn dda ym mhob rhan o fywyd.



- Mae sefydliadau pobl anabl yn cael eu cefnogi i barhau â'u gwaith.



- Mae **gwasanaethau cyhoeddus** fel y GIG yn dilyn y **Model Cymdeithasol o Anabledd**. Maen nhw'n cefnogi hawliau pobl anabl.




- Mae pobl anabl yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus.



- Mae pobl anabl yng Nghymru yn cael eu cynrychioli gan lywodraeth sy'n eu gwerthfawrogi, yn eu deall a'u parchu. Mae hyn yn cynnwys cael pobl anabl mewn swyddi arweinyddiaeth.



- Mae gan bawb yng Nghymru fynediad at y gwasanaethau ar-lein, y sgiliau a'r cysylltiad rhyngrwyd maen nhw eu hangen.

# Geiriau anodd

## Gwasanaethau cyhoeddus

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn meddwl gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth. Fel y GIG a thrafnidiaeth gyhoeddus.

## Hygyrch

Mae hyn yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio gan unrhyw un yn hawdd.

## Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ffordd o feddwl am, ac edrych ar anabledd.

Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud. Dim eu nam neu wahaniaeth sydd yn stoipo nhw.

Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.

## Nam

Mae nam yn wahaniaeth mewn sut mae corff neu feddwl rhywun yn gweithio. Mae'n gallu bod yn y tymor byr, yn y tymor hir neu hyd yn oed yn newid o ddydd i ddydd. Efallai oherwydd eich bod chi'n sâl, wedi'ch hanafu, neu fod gennych gyflwr iechyd.

## Niwrowahanol

Mae niwrowahanol yn meddwl bod ymennydd person yn gweithio'n wahanol. Mae'n cynnwys pethau fel anabledd dysgu, ADHD ac awtistiaeth.